Office for National Statistics

Census 2021

Rhagor o wybodaeth

Amcangyfrif nifer yr ystafelloedd a'r ystafelloedd gwely yng Nghyfrifiad 2021: Dull amgen sy'n defnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) – Ymgynghoriad

Cyfnod yr ymgynghoriad: **28 Mehefin 2017 – 20 Medi 2017.**

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3

1.1 Ymateb i'r ymgynghoriad 4

2. Cyd-destun cynllun Cyfrifiad 2021..... 4

3. Casglu nifer yr ystafelloedd a nifer yr ystafelloedd gwely yn y cyfrifiad..... 5

4. Meini prawf gwerthuso..... 5

5. Polisi cymedroli..... 6

6. Casgliad..... 6

Atodiad A Rhestr termau..... 7

Atodiad B Cyfeiriadau. 8

Atodiad C Cwestiynau ynghylch nifer yr ystafelloedd a nifer yr ystafelloedd gwely yng Nghyfrifiad 2021..... 9

1. Cyflwyniad

Rydym wedi cyhoeddi ein hasesiad cyntaf o ddata Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) fel opsiwn posibl i ddisodli'r cwestiynau ynghylch nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely yng Nghyfrifiad 2021. Rydym yn gwahodd defnyddwyr i edrych ar y data a chymryd rhan mewn ymgynghoriad er mwyn dweud wrthym pa effaith y gallai hyn ei chael.

Mae hyn yn dilyn ymrwymiad a wnaed yn yr ymgynghoriad ar bynciau ar gyfer Cyfrifiad 2021, pan wnaethom argymell nad oedd yn briodol parhau i ofyn dau gwestiwn a oedd wedi'u cynllunio i ddiwallu un angen o ran gwybodaeth.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad cychwynnol, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) o'r farn – gyda rhywfaint o waith datblygu pellach – fod data'r VOA o ansawdd ystadegol digon uchel i ddisodli un o'r cwestiynau ynghylch nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely yng Nghyfrifiad 2021, neu'r ddau ohonynt.

Mae gan y VOA wybodaeth am eiddo gan gynnwys nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely ar gyfer cyfeiriadau ledled Cymru a Lloegr. Mae'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth am gyfeiriadau nad yw'n cael ei chasglu ar hyn o bryd gan y cyfrifiad. Byddai defnyddio'r VOA fel ffynhonnell ddata ar gyfer nodweddion tai yn ein galluogi i lunio amcangyfrifon mwy mynych ac amserol.

Fel gyda llawer o ffynonellau data gweinyddol, mae gwahaniaethau o ran diffiniad, cwmpas, amseru a dulliau casglu data rhwng Cyfrifiad 2011 a data'r VOA. Mae'n bwysig bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn wrth ystyried effaith y newid hwn.

Rydym yn gofyn i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely er mwyn i ni allu deall yr effaith y gallai hyn ei chael ar eich gwaith. Mae'r adroddiad yn cynnwys tablau cryno ac adnodd dadansoddi awdurdodau lleol ac ardaloedd cynnyrch er mwyn i chi ystyried hyn a gweld beth mae'n ei olygu i chi. Drwy ein helpu i ddeall yr effaith ar eich gwaith, byddwch yn ein galluogi i ddiwallu eich angen ymhellach.

Byddwn yn gwerthuso eich ymatebion yn seiliedig ar yr effaith y caiff hyn ar eich gwaith (effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith o gwbl). Caiff y rhain eu pwyso a mesur yn erbyn y manteision sy'n gysylltiedig â chael y wybodaeth hon yn fwy mynych gyda newidynnau newydd o ran nodweddion tai a llai o faich ar y sawl sy'n cwblhau Cyfrifiad 2021.

Er mwyn bod yn dryloyw, nodir y meini prawf y caiff ymatebion rhanddeiliaid eu gwerthuso yn eu herbyn yn yr adran 'Meini prawf gwerthuso: Ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac

ystafelloedd gwely' isod. Bydd hyn yn rhoi darlun clir i chi o'r ffordd y caiff eich ymatebion eu gwerthuso mewn perthynas â defnyddio data'r VOA fel dull amgen o amcangyfrif nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely. Caiff ymatebion eu cymedroli hefyd a cheir manylion y polisi cymedroli hwn yn yr adran 'Polisi cymedroli: Ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely' isod.

1.1 Ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein neu ei gwblhau yma a'i e-bostio at 2021census.consultation@ons.gov.uk. Defnyddiwch y llinell destun 'Ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely'.

Mae rhai cwestiynau hanfodol y bydd angen i chi eu cwblhau er mwyn i ni allu cynnwys eich ymatebion yn ein dadansoddiad.

Caiff eich atebion eu hystyried yn rhai cryfach os byddwch yn:

- rhoi enghreifftiau penodol o'r effeithiau posibl ar eich gwaith (os byddwch yn cyfeirio at bolisi neu gynllun penodol, dylech nodi cyfeiriad uniongyrchol ato a chynnwys dolenni i ategu dogfennau lle y bo'n briodol)

- rhoi sylw i'r ystyriaethau sy'n rhan o'r broses werthuso (gweler adran 4 neu 'Ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely' am ragor o fanylion)

Gwahoddir ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely tan ganol nos ar **20 Medi 2017**.

Er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gennym yn dryloyw, caiff yr ymatebion i'r arolwg hwn eu cyhoeddi. Bydd hyn yn cynnwys enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n ymateb. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod yn fodlon i ni gyhoeddi eich enw. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r arolwg hwn fod ar gael i'r cyhoedd os gwneir cais amdani yn unol â chais Rhyddid Gwybodaeth.

2. Cyd-destun cynllun Cyfrifiad 2021

Ym mis Mawrth 2014, gwnaeth yr Ystadegydd Gwladol a Phrif Weithredwr Awdurdod Ystadegau'r DU argymhelliad ar y cyfrifiad a'r gwaith o ddarparu ystadegau ar y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. Argymhellwyd y dylid gwneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon er mwyn gwella'r ystadegau o Gyfrifiad 2021 a gwella ystadegau blynyddol rhwng cyfrifiadau.

Ymatebodd y llywodraeth i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2014, gan groesawu'r argymhelliad i wneud defnydd pellach o ddata gweinyddol ac arolygon. Nododd mai ei huchelgais oedd y byddai

ffynonellau data eraill yn cael eu defnyddio i gynnal cyfrifiadau ar ôl 2021 ac y byddai cyfrifiadau yn darparu gwybodaeth ystadegol fwy amserol.

3. Casglu nifer yr ystafelloedd yn y cyfrifiad

Mae gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd wedi'i chasglu ers Cyfrifiad 1891 a chyflwynwyd gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd gwely yn 2011. Mae gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely yn galluogi llywodraeth leol a chanolog i wneud y canlynol:

- asesu newidiadau mewn lefelau gorlenwi
- asesu nifer y cartrefi sy'n byw mewn llety anaddas
- mynd i'r afael ag amddifadedd
- llunio polisïau tai priodol
- cynllunio'r ddarpariaeth tai ar gyfer y dyfodol
- dyrannu adnoddau

4. Meini prawf gwerthuso

Bydd yr ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely yn darparu tystiolaeth a gaiff ei defnyddio i asesu a chyflwyno argymhelliad ynghylch defnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) i amcangyfrif nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely ar gyfer Cyfrifiad 2021, oni bai bod yr ymgynghoriad yn darparu tystiolaeth sylweddol sy'n dangos y gallai hyn gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y data hyn.

Byddwn yn gwerthuso'r ymatebion yn seiliedig ar yr effaith y caiff hyn ar waith rhanddeiliaid (effaith gadarnhaol, effaith negyddol neu ddim effaith o gwbl). Ymhlith y meysydd gwaith a gaiff eu hystyried mae:

- maint y boblogaeth yr effeithir arni
- llunio a monitro polisïau
- cynllunio a darparu gwasanaethau
- ymchwil

Mae'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud i asesu'r newid i ddefnyddio data'r VOA ar gyfer amcangyfrif nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely. Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, byddwn hefyd yn gwerthuso'r canlynol wrth fynd ati i lunio argymhelliad:

- anghenion defnyddwyr
- cysondeb â chyfrifiadau blaenorol
- ansawdd y data
- baich ar yr ymatebydd

Dim ond tystiolaeth a ddarperir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a gaiff ei gwerthuso gennym. Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn ac yn diolch i chi am eich cyfraniad.

5. Polisi cymedroli

Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae hyn yn rhoi cyfle i chi anfon ymateb a fydd ar gael i'r cyhoedd yn barhaol ar wefan SYG. Felly, byddwn yn mynd ati i gymedroli ymatebion er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac nad ydynt yn niweidiol i eraill. Rydym yn cymedroli yn unol â'r telerau isod.

Gall ymatebion sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol gael eu dileu:

- bygythiadau neu achosion o annog trais
- anweddustra
- ymatebion union debyg neu sylweddol debyg gan yr un person neu endid
- ymatebion sy'n ceisio cyflogaeth neu'n cynnwys hysbysebion ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth masnachol
- gwybodaeth sy'n mynd yn groes i'r gyfraith, gan gynnwys enllib, cydoddef neu annog gweithgarwch anghyfreithlon, datgelu gwybodaeth ddirgel, neu achos o dorri hawlfraint neu nod masnach

Mae cymedrolwyr yn cadw'r hawl i ddileu ymatebion nad ydynt yn mynd i'r afael ag agwedd ar y diben hwnnw. Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch mewnbwn, a'n dymuniad yw dileu cyn lleied o ymatebion â phosibl a sicrhau bod arolwg adeiladol â ffocws iddo yn cael ei gynnal ar yr un pryd.

Gellir newid y polisi cymedroli hwn er mwyn mynd i'r afael â materion ychwanegol fel y bo angen. Os oes gennych gŵyn am unrhyw eitem gynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddiwr, neu'n teimlo bod eich cynnwys eich hun wedi'i ddileu mewn camgymeriad, cysylltwch â ni.

6. Casgliad

Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloed gwely yn ein helpu i werthuso effaith defnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio i amcangyfrif nifer yr ystafelloedd yng Nghyfrifiad 2021. Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn ac yn diolch i chi am gymryd rhan.

Atodiad A Rhestr termau

Term	**Disgrifiad**
Asiantaeth y Swyddfa Brisio	Asiantaeth weithredol a noddir gan Gyllid a Thollau EM. Mae'n darparu prisiadau a chyngor ar eiddo i gefnogi trethiant a budd-daliadau i'r llywodraeth ac awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
Baich ar yr ymatebydd	Gallai'r baich ar yr ymatebydd, er enghraifft, ddeillio o gyfarwyddyd neu esboniad hirfaith, nifer fawr o gategorïau ymateb, neu nifer fawr o gwestiynau ar un pwnc.
Cartref	Ar gyfer Cyfrifiad 2011, diffiniwyd cartref fel: un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta.
Data gweinyddol	Mae data gweinyddol yn cyfeirio at wybodaeth a gesglir yn bennaf at ddibenion gweinyddol (nid ymchwil). Caiff y math hwn o ddata ei gasglu gan adrannau'r llywodraeth a sefydliadau eraill at ddibenion cofrestru, trafodion a chadw cofnodion, fel arfer pan gaiff gwasanaeth ei ddarparu.
Newidyn	Mae newidyn yn cyfeirio at nodwedd benodol sy'n gysylltiedig ag unigolyn neu gartref. Pennir un o set o werthoedd i'r newidyn a fydd naill ai'n fesur rhifol neu'n gategori o ddosbarthiad. Er enghraifft, mae'r newidyn oedran yn cofnodi gwerth oedran rhifol ar gyfer unigolyn, ac mae'r newidyn math o lety yn cofnodi categori o dŷ, fflat, strwythur symudol ac ati ar gyfer cartref.
Nifer yr ystafelloedd	Dyma nifer yr ystafelloedd mewn cartref (gweler atodiad C).
Nifer yr ystafelloedd gwely	Dyma nifer yr ystafelloedd gwely mewn cartref (gweler atodiad C).
Rhif cyfeirnod eiddo unigryw (UPRN)	Mae rhif cyfeirnod eiddo unigryw (UPRN) yn ddynodwr alffaniwmerig unigryw ar gyfer pob cyfeiriad gofodol ym Mhrydain Fawr a gellir dod o hyd iddo ar gynhyrchion cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans. Mae'n ddynodwr cynhwysfawr, cyflawn a chyson ar gyfer eiddo drwy gydol ei gylch oes - o'r caniatâd cynllunio i'r gwaith dymchwel.
Ymgynghoriad	Mae **ymgynghoriad** cyhoeddus, neu **ymgynghoriad** yn syml, yn broses reoliadol ar gyfer ceisio mewnbwn y cyhoedd ar faterion sy'n effeithio arnynt. Ei brif nodau yw gwella effeithlonrwydd, tryloywder a chyfranogiad y cyhoedd mewn prosiectau mawr neu gyfreithiau a pholisïau.

Atodiad B Cyfeiriadau

1. Cyfrifiad 2021: Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr
https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales/cyfrifiad2021barngychwynnolargynnwysargyfercymrualloegr.pdf

2. Cyfrifiad 2021: Asesiad o ofynion cychwynnol defnyddwyr o ran cynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr – Ymateb i'r ymgynghoriad
https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/assessmentofinitialuserrequirementsoncontentforenglandandwales/maintopicreportwelshlanguage.pdf

3. 2021 Census: Assessment of initial user requirements on content for England and Wales – Housing topic report
https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales/topicreport12housing.pdf

Atodiad C Cwestiynau ynghylch nifer yr ystafelloedd a nifer yr ystafelloedd gwely yng Nghyfrifiad 2011

H1 – Holiadur y cartref yn Lloegr (chwith)
H2 – Holiadur y cartref yn Saesneg ar gyfer Cymru (canol)
H2W – Holiadur y cartref yn Gymraeg (de)



Household Questionnaire
England
Office for National Statistics
2011 Census

H9 How many rooms are available for use only by this household?

- Do NOT count:
  - bathrooms
  - toilets
  - halls or landings
  - rooms that can only be used for storage such as cupboards
- Count all other rooms, for example:
  - kitchens
  - living rooms
  - utility rooms
  - bedrooms
  - studies
  - conservatories
- If two rooms have been converted into one, count them as one room

Number of rooms

H10 How many of these rooms are bedrooms?

- Include all rooms built or converted for use as bedrooms, even if they are not currently used as bedrooms

Number of bedrooms

Household Questionnaire
Wales
Office for National Statistics / Swyddfa Ystadegau Gwladol
2011 Cyfrifiad Census

H9 How many rooms are available for use only by this household?

- Do NOT count:
  - bathrooms
  - toilets
  - halls or landings
  - rooms that can only be used for storage such as cupboards
- Count all other rooms, for example:
  - kitchens
  - living rooms
  - utility rooms
  - bedrooms
  - studies
  - conservatories
- If two rooms have been converted into one, count them as one room

Number of rooms

H10 How many of these rooms are bedrooms?

- Include all rooms built or converted for use as bedrooms, even if they are not currently used as bedrooms

Number of bedrooms



Holiadur y Cartref
Cymru
Office for National Statistics / Swyddfa Ystadegau Gwladol
2011 Cyfrifiad Census

H9 Sawl ystafell sydd yn y cartref hwn at ddefnydd aelodau o'r cartref hwn yn unig?

- PEIDIWCH â chyfrif:
  - ystafelloedd ymolchi
  - toiledau
  - cynteddau neu landins
  - ystafelloedd sydd ddim ond yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer storio, fel cypyrddau
- Cofiwch gyfrif pob ystafell arall, er enghraifft:
  - ceginau
  - ystafelloedd byw
  - ystafelloedd iwtiliti
  - ystafelloedd gwely
  - stydis
  - ystafelloedd gwydr
- Os bydd dwy ystafell wedi'u cyfuno i fod yn un, cyfrifwch nhw yn un ystafell

Nifer yr ystafelloedd

H10 Faint o'r ystafelloedd hyn sy'n ystafelloedd gwely?

- Dylech gynnwys pob ystafell a gafodd ei hadeiladu neu ei throi i'w defnyddio fel ystafell wely, hyd yn oed os nad yw'n cael ei defnyddio fel ystafell wely ar hyn o bryd

Nifer yr ystafelloedd gwely

Cysylltu â ni

E-bostiwch: 2021census.consultation@ons.gov.uk. Defnyddiwch y llinell destun 'Ymgynghoriad ynghylch amcangyfrif ystafelloedd ac ystafelloedd gwely'.